# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 17 Hydref 2024

Amser: 09.30 - 12.44

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/14118

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Buffy Williams AS (Cadeirydd)<br>Cefin Campbell AS<br>Alun Davies AS (yn lle Hefin David AS)<br>Gareth Davies AS<br>Vaughan Gething AS<br>Tom Giffard AS<br>Lee Waters AS |
| Tystion: | Meinir Ebbsworth, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol<br>Dona Lewis, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol<br>Dr Ioan Matthews, Coleg Cymraeg Cenedlaethol<br>Rebecca Williams, Coleg Cymraeg Cenedlaethol<br>Rhian Edwards, Medr (Commission for Tertiary Education and Research)<br>Jonathan Morgan, ColegauCymru<br>Lisa Mytton, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru<br>Amanda Wilkinson, Director, Universities Wales, Prifysgolion |

| | |
|---|---|
| | Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Tom Lewis-White (Ail Glerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Manon Huws (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Osian Bowyer (Ymchwilydd)<br>Michael Dauncey (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Hefin David AS. Roedd Alun Davies AS yn dirprwyo ar ran Hefin o 10.30am ymlaen.

1.3 Croesawodd y Cadeirydd Lee Walters AS o'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol i'r cyfarfod.

1.4 O dan Reol Sefydlog 17.24A datganodd Cefin Campbell AS fuddiant gan y bu'n rhan o'r gwaith o ddatblygu Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru).

## 2 Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) - sesiwn dystiolaeth 13

2.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

2.2 Cytunodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddarparu rhagor o wybodaeth am fynd i'r afael â'r heriau gweithlu o ran rhoi'r Bil ar waith, yn enwedig yr hyn y byddai angen gwneud nad yw wedi'i gynnwys yn y Bil.

## 3 Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) – sesiwn dystiolaeth 14

3.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Medr.

3.2 Cytunodd Medr i ddarparu nodyn ar y gwelliannau sydd eu hangen i roi eglurder yn y Bil o ran sut y bydd gwahanol sefydliadau yn cyflawni eu dyletswyddau a rhagor o wybodaeth am yr adnoddau tebygol sydd eu hangen i uwchsgilio'r gweithlu i gyflawni uchelgeisiau'r Bil.

## 4 Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) – sesiwn dystiolaeth 15

4.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan ColegauCymru, Prifysgolion Cymru a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru.

4.2 Cytunodd Prifysgolion Cymru i ddarparu rhagor o wybodaeth mewn perthynas â Rhan 3 o'r Bil ar faterion yn ymwneud â llwybrau a dilyniant i addysg uwch.

## 5 Papurau i'w nodi

5.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) – trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn y sesiynau blaenorol.